Annwyl Riant/Ofalwr,

Rydych yn derbyn yr wybodaeth yma er mwyn i chi wybod beth yw'r cymorth sydd ar gael ar gyfer eich plentyn gan eu bod yn derbyn mewnbwn ar gyfer **unrhyw angen dysgu ychwanegol**.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Llywodraeth Cymru bellach yn gofyn i rieni gadw eu plant gartref **lle bynnag y bo hynny'n bosibl** er mwyn lleihau lledaeniad Firws COVID-19.

Hyd nes bod y cyfnod heriol yma yn dod i ben, **fydd y cymorth y maent yn ei dderbyn yn wahanol**. Mae addysg statudol ar gyfnod o saib, gyda gofal yn cael ei gynnig i nifer fechan o blant.

Yn ystod y cyfnod hwn fe fydd y **Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** yn parhau i gefnogi, ond fe fydd y ffordd yr ydym yn gwneud hyn yn gorfod bod yn **wahanol iawn**. Os ydych eisiau cyswllt gydag aelod o'r gwasanaeth, dylech drafod gyda'r Ysgol. Yr Ysgol ddylai fod eich cyswllt cyntaf gydag unrhyw ymholiad ar gyfer gwneud yn siŵr fod pawb yn deall ei gilydd. **Gall yr Ysgol gysylltu** gyda'r tîm i wneud trefniadau ar eich rhan.

1. Bydd Ysgol eich plentyn yn **darparu gweithgareddau sydd yn addas** o ran eu hanghenion ychwanegol yn ogystal â'r gweithgareddau addysgol.
2. Fe fydd y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn rhoi **gweithgareddau defnyddiol ac adnoddau** ar y **wefan** (www.adyach.cymru) yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr wybodaeth addas ar gyfer ystod o anghenion. Gallwch drafod gyda'r Ysgol os ydych yn ansicr a fyddai gweithgaredd sydd ar y wefan yn **addas ar gyfer eich plentyn chi**.
3. Fe fydd y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn parhau i gynnig **gwasanaeth ymgynghori dros y ffon neu alwad fideo**. Gall yr Ysgol gysylltu gyda'r Gwasanaeth ar gyfer trafod hyn.
4. Os oes gan eich plentyn **Gynllun Datblygu Unigol Fforwm** (ble mae yna Wasanaeth penodol yn cefnogi), fe fydd y Gwasanaeth mewn cyswllt gyda'r Ysgol yn **rheolaidd.** Gall cyswllt fod drwy alwad ffôn neu alwad fideo. Os ydyw eich plentyn yn arferol yn mynychu **canolfan** benodol, fe fydd y Gwasanaeth yn rhoi gweithgareddau defnyddiol y gallwch eu gwneud gyda'ch plentyn i'r Ysgol eu rhannu gyda chwi. Os ydynt yn mynychu canolfan ofal, bydd gweithgareddau yn cael eu cynnig iddynt wneud yno hefyd.
5. Os oes gan eich plentyn **Gynllun Datblygu Unigol Awdurdod neu Ddatganiad** (ac yn cael cymorth ychwanegol awdurdod yn yr ysgol), fe fydd y Gwasanaeth yn adnabod **gweithiwr allweddol** penodol o'r Tîm mwyaf addas er mwyn **cadw cyswllt wythnosol gyda'r Ysgol, a gyda chwi pe byddai angen**. Gall cyswllt fod drwy alwad ffôn neu alwad fideo. Os ydynt yn mynychu canolfan ofal, bydd gweithgareddau yn cael eu cynnig iddynt wneud yno hefyd.

I gloi, hoffwn eich sicrhau y gwnawn unrhyw beth y gallwn i gefnogi ac i gynorthwyo yn ystod cyfnod hwn. Byddwn yn sicrhau ein bod ar gael cymaint â phosib, ac yn defnyddio technoleg i hwyluso pethau.

Rydym yn dymuno'r gorau i chwi,

Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, Gwynedd a Môn)
(01286) 679007 www.adyach.cymru
Twitter/Trydar @seicolegol